# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 16/06/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

### Cyllideb Materion Gwledig

**C8 Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa ystyriaethau a roddwyd i gyllido'r gyllideb materion gwledig yn y dyfodol? OAQ(3)1078(BB)

**Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt):** Cafodd y gyllideb materion gwledig ar gyfer 2010-11 ei chymeradwyo gan y Cynulliad fis Rhagfyr diwethaf. Bydd yr adolygiad cynhwysfawr o wariant sydd ar ddod yn gosod cyllidebau yn y dyfodol. I baratoi ar gyfer hyn, yr wyf i a'm cydweithwyr yn y Cabinet eisoes yn edrych ar y ffordd orau o fynd i'r afael â'r heriau o ran y gyllideb yn y dyfodol, tra'n sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni ein blaenoriaethau.

### 'Cymru'n Un'

**C9 Eleanor Burnham:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i addasu cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried ymrwymiadau 'Cymru'n Un' sydd eisoes wedi cael eu darparu? OAQ(3)1118(BB)

**Jane Hutt:** Yr wyf yn cydweithio â phob Gweinidog i ddeall y materion y mae eu portffolios yn eu hwynebu wrth benderfynu ar gyllidebau. Mae ein cynigion ar gyfer y gyllideb yn ystyried y llwyddiannau hyd yma, a blaenoriaethau yn y dyfodol, gan gynnwys y rhai hynny sydd wedi'u hamlinellu yn 'Cymru'n Un'.

### Ymgynghoriadau ynghylch y Gyllideb

**C10 Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr ymgynghoriadau diweddar ynghylch y gyllideb? OAQ(3)1116(BB)

**Jane Hutt:** Cafodd cyllideb Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2010-11 ei chymeradwyo fis Rhagfyr y llynedd. Cefais gyfarfod yn ddiweddar â'r Prif Ysgrifennydd i drafod y goblygiadau i Gymru o ganlyniad i gyhoeddiad Llywodraeth Prydain ar doriadau gwariant yn 2010-11, a byddaf yn gwneud datganiad arall yn y cyfarfod llawn maes o law.

### Cyllideb Cymru

**C11 Lynne Neagle:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ynghylch cyllideb Cymru? OAQ(3)1114(BB)

**Jane Hutt:** Cefais gyfarfod â'r Prif Ysgrifennydd ar 9 Mehefin. Cawsom drafodaethau adeiladol am safbwyntiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch rheoli'r toriadau o £187 miliwn yn ystod y flwyddyn yng Nghymru, ail adroddiad comisiwn Holtham, ac ariannu teg i Gymru. Cytunodd y Prif Ysgrifennydd i ad-dalu y swm canlyniadol negyddol o £1.6 miliwn o gyllideb y gemau Olympaidd.

### Portffolio

**C12 Andrew RT Davies:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â chyd-Weinidogion ynghylch effaith blaenoriaethau ei phortffolio ar gyflenwi gwasanaethau yng Nghymru? OAQ(3)1091(BB)

**Jane Hutt:** Yr wyf yn cynnal trafodaethau rheolaidd ar faterion sy'n gysylltiedig â'r gyllideb gyda'r Gweinidogion sy'n cydweithio â mi. Wrth inni baratoi am gyfres o setliadau anodd o ran y gyllideb, mae ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau yng Nghymru yn ystyriaeth allweddol.

### Blaenoriaethau Tai

**C13 Mark Isherwood:** Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog yn ei rhoi i flaenoriaethau tai Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth ddyrannu'r gyllideb amgylchedd, cynaliadwyedd a thai? OAQ(3)1094(BB)

**Jane Hutt:** Wrth benderfynu ar setliad y gyllideb, yr wyf yn cydweithio â phob Gweinidog i edrych ar y pwysau a'r blaenoriaethau o fewn eu portffolio. Mae ein cynigion o ran y gyllideb yn adlewyrchu'r pwysau a'r blaenoriaethau hyn yn ogystal â sicrhau bod ein gwariant yn gydnaws â'n blaenoriaethau cyffredinol yn 'Cymru'n Un'.

### Cyllideb Cymru

**C14 Lynne Neagle:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda chyd-Weinidogion ynghylch cyllideb Cymru? OAQ(3)1115(BB)

**Jane Hutt:** Yn ystod proses y gyllideb, cefais gyfarfod â phob Gweinidog portffolio i ddeall y pwysau a'r blaenoriaethau o fewn eu portffolio. Mae'r trafodaethau hyn yn rhan o'r gwaith cynllunio a'r gwaith paratoadol sy'n cael ei wneud fel rhan o gylch cynllunio'r gyllideb.

### Gwasanaethau Cyhoeddus

**C15 Mark Isherwood:** Pa ystyriaeth a roddodd y Gweinidog i wasanaethau cyhoeddus wrth ddyrannu'r gyllideb gyffredinol? OAQ(3)1093(BB)

**Jane Hutt:** Mae 'Cymru'n Un' yn pennu'r rhaglen ar gyfer y Llywodraeth hon. Mae ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus rhagorol i bobl Cymru yn greiddiol i'r rhaglen honno. Mae'r ymrwymiad hwn yn llywio ein cynigion ar gyfer y gyllideb bob blwyddyn.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

### Hyrwyddo Diwylliant Cymru

**C9 Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo diwylliant Cymru? OAQ(3)1194(HER)

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones):** Mae pwysigrwydd diwylliant gyfoethog ac amrywiol yn ganolog i amcanion fy mhortffolio. Mae dogfen 'Cymru'n Un' yn rhoi amlinelliad o'n hamcanion i gynnig profiadau diwylliannol o safon uchel i bobl Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi ac yn hybu diwylliant a threftadaeth Cymru ledled y wlad a thramor.

### Menywod mewn Chwaraeon

**C10 Christine Chapman:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i annog menywod i gymryd rhan mewn chwaraeon? OAQ(3)1190(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gan pob oedran, rhyw a grŵp cymdeithasol gyfle i gymryd rhan mewn chwaraeon. Blaenoriaeth allweddol Chwaraeon Cymru yw annog mwy o fenywod a genethod i ymddiddori mewn chwaraeon gydol eu bywydau.

### Twristiaeth

**C11 Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dwristiaeth yng Nghymoedd y de? OAQ(3)1176(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae posibiliadau gwych yn y Cymoedd o ran cynnig cyfleoedd i dwristiaeth. Mae'r fenter Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn helpu i wireddu'r posibiliadau hyn drwy ddatblygu, gwella a hybu asedau amgylcheddol a diwylliannol neilltuol y Cymoedd, gan helpu i newid ei sefyllfa a'i delwedd fel cyrchfan i dwristiaid.

*Tynnwyd cwestiwn 12, OAQ(3)1183(HER), yn ôl.*

### Gwarchod Treftadaeth Wledig

**C13 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am warchod treftadaeth wledig ledled Cymru? OAQ(3)1185(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu treftadaeth wledig Cymru, gan alluogi pobl i'w mwynhau, helpu i bobl ei deall a'i gwerthfawrogi, a chefnogi'r rhai hynny sy'n ei rheoli. Ein nod yw cael pobl i ymgysylltu â threftadaeth wledig Cymru, ei rheoli a'i diogelu.

### Hybu Twf yr Iaith Gymraeg

**C14 Nerys Evans:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hybu twf yr iaith Gymraeg? OAQ(3)1164(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae Llywodraeth Cymru'n Un yn parhau i ymrwymo i wneud Cymru yn wlad wirioneddol ddwyieithog, lle y gall pobl fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Yr ydym wedi cyflwyno Mesur arfaethedig y Gymraeg, a hefyd yn datblygu strategaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a fydd yn destun ymgynghoriad yn ddiweddarach eleni.

### Hyfforddiant Chwaraeon yng Nghymru

**C15 Sandy Mewies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr arian a gyhoeddwyd yn ddiweddar i gefnogi hyfforddiant chwaraeon ychwanegol yng Nghymru? OAQ(3)1199(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae hyfforddiant yn chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu pobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon ac yr oeddwn yn falch o gyhoeddi yn y gynhadledd ddiweddar

i randdeiliaid y bydd £1 miliwn yn ychwanegol yn cael ei fuddsoddi i gynorthwyo ein hymrwymiadau 'Cymru'n Un' sy'n gysylltiedig â hyfforddi.